

Cyngor Bro Llanllwni

Adroddiad Cyfarfod Mis Tachwedd 2021

AGENDA

Roedd y Clerc wedi rhoi copi yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a chadarnhawyd cywirdeb cofnodion Medi 2021.

Roedd y Clerc wedi derbyn gwybodaeth gan "Un Llais Cymru" bod angen danfon copi drafft o'r cofnodion at y Cadeirydd o fewn 48 awr, a'u gosod ar y wefan o fewn 7 diwrnod.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Hysbyswyd y cynghorwyr bod disgyblion Ysgol Llanllwni yn defnyddio'r cae chwarae yn ystod y gaeaf. Penderfynwyd yn sgil hynny y byddai'r toiledau yno yn barhaol.

TINOPOLIS

Cadarnhawyd gan y Clerc bod taliad wedi'i dderbyn am ddefnyddio'r cae yn mis Awst.

CAIS CYNLLUNIO

Nid oedd yr un cais wedi dod i law erbyn y cyfarfod.

GWEFAN LLANLLWNI

Penderfynwyd yn unfrydol i symud ymlaen a datblygu gwefan i'r Cyngor.

DIFFIBRILYDDION

Yr oedd y Clerc wedi derbyn ebost yn cadarnhau nad oedd y diffibrilydd ar wal Festri Capel Nonni wedi ei gofrestru. Penderfynwyd bod y Clerc yn gwneud ymholiadau pellach ac yn cofrestru'r diffibrilydd cyn gynted â phosib.

Roedd ymholiadau pellach i'w gwneud cyn gosod diffibrilydd ar wal T.L. Thomas

Cafwyd cadarnhad bod Pwyllgor y Neuadd Gymunedol yn mynd i wneud trefniadau ynglŷn â gosod diffibrilydd ar wal y Neuadd.

CYSGODFANNAU BYSIAU:

Cafwyd cadarnhad bod y Cysgodfannau wedi eu glanhau.

GOLEUADAU SOLAR

Roedd y Clerc wedi cysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin ers y cyfarfod diwethaf gan fod postyn ger garej Llys-y-wawr ond doedd dim golau yno. Mae postion, yn ogystal, ger cysgodfan y Belle Vue, Dol-gors â Garej Tegfan ond nid oes goleuadau solar yn gweithio yno ychwaith. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu eto cyn y cyfarfod nesaf.

YSGOL GYNRADD LLANLLWNI

Derbyniwyd gwybodaeth bod athrawes newydd yn yr ysgol ers mis Medi, ac mai Aled Evans, Carreg Hirfaen, Cwm-ann yw Prifathro rhan amser yr Ysgol ers dechrau Tachwedd. Byddai dau gysgodfan newydd yn cael eu gosod ar safle'r ysgol.

GOLEUADAU STRYD

Cafwyd cadarnhad nad oedd y golau ger Rhos Uchaf (Dolifor) a Ffynnon-ddrain yn gweithio. Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad y byddent yn cael eu trwsio pan fyddai'r gweithlu yn yr ardal nesaf. Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad bod y gwaith wedi ei gwblhau ar hewl Maesnonni.

GOLEUADAU YR HEN SWYDDFA BOST A TŶ GÔF:

Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn danfon llythyr at breswylwyr Tŷ Gôf i egluro nad oedd y golau yn mynd i gael ei symud ond y byddai gorchudd yn cael ei osod.

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cadarnhawyd bod y cyfrifon wedi eu danfon i Swyddfa Archwilio Cymru ers y cyfarfod diwethaf, a bod y Clerc wedi derbyn cadarnhad bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi eu derbyn.

BWRDD IECHYD PRIFYSGOL HYWEL DDA:

Gwybodaeth.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD DYFED POWYS:

Gwybodaeth ynglŷn â chynllun Dafydd Llywelyn Comisiynydd yr Heddlu am gynlluniau tua'r dyfodol.

SEFYDLIAD Y TEULU – CRONFA FFERM WYNT BRECHFA:

Roedd y sefydliad am gael lle i gynnal gweithgareddau o fewn y pentref. Penderfynwyd yn unfrydol y byddai'r Neuadd yn fan delfrydol.

Cefnogwyd Apêl Teganau Nadolig; Ambiwylans Awyr Cymru; Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth a'r plwyf.

CFFI LLANLLWNI:

Llongyfarchwyd y clwb ar ennill eisteddfod Sir Caerfyrddin yn ddiweddar.

DATHLU 100 OED:

Llongyfarchwyd Mrs Sarah Jones, Sarn Helen (Rhos Uchaf gynt) a oedd wedi dathlu ei phenblwydd yn 100 oed ddiwedd mis Medi.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni 13 Rhagfyr 2021 am 7.30yh.